## ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU
## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU 2019/20

### Cefndir

Dyma'r pymthegfed adroddiad blynyddol gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub, ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2019 hyd at fis Mawrth 2020. Mae deddfwriaeth yn mynnu bod y Pwyllgor Safonau yn cwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau'r Awdurdod. Hefyd, pan fo statud yn caniatáu, mae'n derbyn adroddiadau a chwynion am Aelodau, yn gwneud neu oruchwylio archwiliadau, ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod.

### Aelodaeth

Fe wnaeth y Pwyllgor hysbysebu lle gwag ar gyfer Aelod Annibynnol, ac yn dilyn cyfweliad, cafwyd 2 ymgeisydd o safon uchel. Er mai dim ond un aelod yr oedd y Pwyllgor eisiau ar y pryd, mae ail gyfnod A P Young yn y swydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2020 felly ni fydd yn gymwys i gael ei ailbenodi. Teimlid mai doeth fyddai ychwanegu Aelod Annibynnol ychwanegol i'r pwyllgor er mwyn sicrhau gwasanaethau'r ddau ymgeisydd. Felly, fe wnaeth dau aelod annibynnol newydd, sef Gill Murgatroyd a Gareth Pritchard, ymuno â'r Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2019, a hynny am gyfnod o bedair blynedd.

Ar hyn o bryd, mae'r aelodau canlynol ar y Pwyllgor Safonau:

<u>Aelodau Annibynnol</u>
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20
Sally Ellis 01/01/18 – 31/12/2021
Julia Hughes 01/01/18 – 31/12/2021
Gill Murgatroyd 01/09/19 – 31/08/23
Gareth Pritchard 01/09/19 – 31/08/23

<u>Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub</u>
Y Cynghorydd Dylan Rees (19/06/18 ac ymlaen)
Y Cynghorydd Owen Thomas (19/06/18 ac ymlaen)

Bydd y Pwyllgor yn dychwelyd i'w faint blaenorol pan fydd Mr Young yn ymddeol.

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ddwywaith yn ystod y flwyddyn.

Cynhaliwyd cyfarfod ar 29 Tachwedd 2019. Ymgymerodd Julia Hughes â swydd Cadeirydd, ac roedd Sally Ellis, Gill Murgatroyd, Gareth Pritchard, y Cyng. Dylan Rees a'r Cyng. Owen Thomas yn bresennol.

Yn y cyfarfod, bu'r aelodau'n trafod swyddogaeth y Pwyllgor, a gofynnwyd am gael hyfforddiant ar rai pynciau yn y cyfarfod dilynol.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu presenoldeb aelodau'r ATA mewn cyfarfodydd. Tynnwyd sylw at y ffaith fod methu â mynychu cyfarfodydd yn broblem fawr i'r Awdurdod gan fod hynny'n lleihau ei gapasiti ac yn creu bylchau yn nealltwriaeth yr Aelodau a gall gymryd amser i oresgyn hynny. Er mwyn symud ymlaen â'r mater, gofynnodd yr aelodau i'r Dirprwy Glerc anfon llythyrau o werthfawrogiad i'r aelodau sydd â chyfradd presenoldeb uwch na 50%, ac anfon llythyrau yn amlinellu pwysigrwydd mynychu cyfarfodydd at aelodau o'r ATA sydd â chyfradd mynychu sy'n 50% ac is. Caiff y llythyrau hyn eu copïo i'r Arweinydd Grŵp a'r Prif Weithredwr ymhob cyngor.

Yn y cyfarfod hwn, fe wnaeth yr aelodau gwblhau'r adolygiad systematig o bolisïau yn unol â chylch gwaith y Pwyllgor Safonau.

Cyflwynwyd adroddiad i'r aelodau allu ystyried y materion a'r opsiynau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu un neu ragor o gyd-bwyllgorau safonau ledled Gogledd Cymru; ar hyn o bryd, mae wyth Pwyllgor Safonau ar draws yr awdurdodau yng ngogledd Cymru. Mae nifer gynyddol o aelodau pwyllgorau safonau yn gwasanaethau ar fwy nag un awdurdod, ac mae hyn yn cyfrannu at ostwng cost datblygu/hyfforddi (neu'n cael y fantais fwyaf ohonynt). Fodd bynnag, dan y ddeddf, mae'n bosibl cael cyd-bwyllgor sy'n gwasanaethu dau neu ragor o awdurdodau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o'r materion a'r opsiynau ar gyfer cael un neu ragor o gyd-bwyllgorau o'r fath. Cytunwyd i ohirio penderfyniad ar y mater hyd nes daw rhagor o wybodaeth am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ddiwygio llywodraethiant yn yr ATAau. Yn y cyfamser, cytunodd y Dirprwy Glerc i wneud ymholiadau am y posibilrwydd o gyfuno Pwyllgor Safonau'r ATA gyda Phwyllgor Safonau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Cyfarfu'r Pwyllgor eto ar 28 Chwefror 2020. Ymgymerodd Antony Young â swydd Cadeirydd, ac roedd Sally Ellis, Julia Hughes, Gill Murgatroyd, Gareth Pritchard a'r Cyng. Owen Thomas yn bresennol.

Yn y cyfarfod hwn, bu'r Aelodau'n ystyried cylch gorchwyl diwygeidig ar gyfer y Pwyllgor, sydd nawr yn fwy cynhwysfawr o ran materion safonol megis cyfansoddiad, cyfnod swyddi a chworwm. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i dynnu'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r gyfundrefn chwythu'r chwiban oherwydd byddai'n fwy priodol i honno gael ei monitro gan y Pwyllgor Archwilio. Fodd bynnag, roedd polisi chwythu'r chwiban ar yr agenda er mwyn ei adolygu; cytunodd yr aelodau fod y polisi wedi'i ysgrifennu'n dda gan awgrymu mân newidiadau.

**Cwynion yn erbyn Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni chafwyd unrhyw gwynion ynghylch Aelodau'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae cyllideb y Pwyllgor Safonau yn cael ei rheoli drwy un pennawd yn y gyllideb ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Ers 2012, mae gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau hawl i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol ar sail cyfarfodydd a digwyddiadau a fynychwyd. Am fynychu cyfarfodydd yn y flwyddyn ariannol hon, cafodd cyfanswm o £1,287 ei hawlio, a thalwyd £179.55 o gostau teithio.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau yn argymell bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2019/20.

**Cylch Gorchwyl Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Cylch Gwaith

Mae gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) Bwyllgor Safonau i oruchwylio, cynnal a chryfhau safonau uchel o ymddygiad gan ei aelodau.

Mae gan y Pwyllgor Safonau amrywiaeth o swyddogaethau yn ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau. Oni bai fod busnes yn mynnu fel arall, bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

Cyfansoddiad

Bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Awdurdod a phedwar o bobl annibynnol nad ydynt yn Aelodau nac yn Swyddogion ar yr Awdurdod, ac un o'r rheini fydd yn cadeirio'r pwyllgor. Nid oes raid i gynrychiolaeth ar y pwyllgor hwn gael yr un gyfran â chyfansoddiad gwleidyddol yr Awdurdod cyfan (Adran 53(10) Deddf Llywodraeth Leol 2000).

Cyfnod swydd

Cyfnod swydd yr Aelodau Annibynnol yw dim llai na phedair blynedd na dim mwy na chwe blynedd, ac mae'r Aelodau Annibynnol hyn yn gymwys i gael eu hailbenodi am gyfnod arall hyd at bedair blynedd.

O ran aelodau'r Awdurdod ar bwyllgorau safonau, pedair blynedd yw cyfnod eu swydd neu'r cyfnod hyd nes bydd penodiad yr aelod hwnnw fel aelod o'r awdurdod hwnnw yn dod i ben, pa un bynnag yw'r byrraf. Bydd aelod o'r fath yn gorffen bod yn aelod o'r pwyllgor safonau hwnnw os yw'r aelod hwnnw yn gorffen bod yn aelod o'r awdurdod perthnasol dan sylw.

Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd

Rhaid i swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd gael eu cyflawni gan yr Aelodau Annibynnol. Penodir yn y cyfarfod cyntaf o bob blwyddyn ariannol. Dylai cyfnod ethol y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fod y byrraf o'u cyfnod sydd ar ôl neu 4- 6 mlynedd.

Swyddogaeth a phwrpas

1 Hybu a chynnal safonau uchel o ymddygia gan aelodau'r awdurdod.

2 Cynorthwyo aelodau'r awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod.

3 Cynghori'r awdurdod ar ddiwygio'r cod ymddygiad.

4 Monitro gweithrediad y cod ymddygiad y mae'r awdurdod wedi'i fabwysiadu.

5 Hyfforddi aelodau'r awdurdod a chynghori ynghylch materion ymddygiad yn gyffredinol.

6 Pan fo'r statud yn caniatáu, trefnu goddefeb i siarad a/neu bleidleisio pan fo gan aelod fuddiant.

7 Derbyn a gweithredu cyngor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a/neu argymhellion gan unrhyw banel dyfarnu neu dribiwnlys achos.

8 Pan fo'r statud yn caniatáu, derbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, cynnal neu oruchwylio ymchwiliadau priodol a gwneud argymhellion priodol i'r awdurdod.

9 Derbyn adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am honiadau o gamweinyddu neu honiadau am dorri'r cod ymddygiad, a gwneud argymhellion priodol.

10 Arfer pwerau neu ddyletswyddau a geir neu a osodir ar bwyllgorau safonau o bryd i'w gilydd gan ddeddfwriaeth.

Pwerau a ddirprwyir i'r Pwyllgor

11 Penderfynu ynghylch cwynion Cam 3 am y Gwasanaeth, yn unol â Threfn Gwyno'r Awdurdod.

12 Pwerau dirprwyedig am unrhyw fater o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor ac eithrio pan fo hyn yn ymwneud â gwariant nad oes cyllideb wedi'i chymeradwyo ar ei gyfer.

Cworwm

Y cworwm fydd y canlynol o leiaf:

(i) tri aelod yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd; a

(ii) aelodau annibynnol yw hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd).

Pleidleisio

Caiff penderfyniadau'r Pwyllgor eu gwneud gan fwyafrif o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw gan yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod. Yn achos nifer gyfartal o bleidleisiau, bydd gan y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod hawl i gael ail bleidlais fwrw.

Amlder y cyfarfodydd

Oni bai fod busnes yn mynnu fel arall, bydd y Pwyllgor yn cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Bydd y Swyddog Monitro neu'r cynrychiolydd a enwebwyd yn mynychu'r cyfarfod.

Cofnodion cyfarfodydd

Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cofnodi a'u llofnodi gan y Cadeirydd. Cofnodir unrhyw benderfyniadau, gan gynnwys y rheswm dros benderfyniadau o'r fath, a bydd buddiannau'n cael eu datgan.

Adrodd

Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad blynyddol, i'w gyflwyno i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Adolygu'r cylch gorchwyl

Caiff y cylch gorchwyl ei adolygu bob blwyddyn.

(Fel y darparwyd gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001; a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006).